sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# TROSOLWG / CRYNODEB

## Cynllun Datblygu Ysgol : Ysgol Gymraeg Brynsierfel

# 2025-2026

*I'w gyhoeddi ar wefan yr ysgol*

# Ein Cynllun Datblygu Ysgol

Bob blwyddyn academaidd, rydym yn creu ein Cynllun Datblygu Ysgol (CDY). Mae hwn yn gynllun sy'n nodi'r meysydd y byddwn yn gweithio arnynt fel ysgol dros y flwyddyn academaidd.

O fis Medi 2022, rhaid i bob corff llywodraethu ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol canlynol wrth osod eu blaenoriaethau gwella:

- gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
- ✓ lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr

Mae ein CDY wedi ei rannu i flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod o ystod o ffynonellau gan gynnwys hunan-werthuso; dadansoddi data; adborth o ffynonellau allanol a monitro mewnol. Ysgrifennwyd y cynllun mewn cydweithrediad â staff, llywodraethwyr, plant a rhieni. Ar gyfer pob blaenoriaeth, cynllunnir nifer o gamau gweithredu trwy gydol y flwyddyn. Mae'n ddogfen gweithredol, ac er na fydd newidiadau mawr i'r cynllun, wrth i ni roi'r plant wrth galon popeth a wnawn, efallai y bydd newidiadau'n digwydd i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i anghenion ein disgyblion.

Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu ac ymroddiad iddynt, mae'r ysgol yn cyhoeddi'r copi cryno hon ar ein gwefan. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys :

1. crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
2. blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn bresennol, camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni'r blaenoriaethau hynny; a cherrig milltir perthnasol
   *gan gynnwys cymorth allanol a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol (gan gynnwys cymorth a gaiff ei roi neu ei froceru gan gonsortia rhanbarthol)
3. adroddiad ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol

Yn y modd hwn, bydd rhieni, gofalwyr a dysgwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth safonol sydd ar gael i bob ysgol. Bydd hyn yn cefnogi tryloywder drwy roi gwybodaeth reolaidd a chyson i rieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach am yr ysgol a'i datblygiad.

*Mae'r uchod yn cyd-fynd â'r disgwyliadau a nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

## Adran 1 : Crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu

| 3 maes trosfwaol ar gyfer hunanwerthuso : | Beth ydym ni'n falch ohono yma yn Ysgol Gymraeg Brynsierfel<br>Pethau mae'r ysgol yn eu gwneud yn dda. Nodweddion a/neu weithgareddau sy'n unigryw/arloesol i'r ysgol. Agweddau rydyn ni eisiau eu rhannu a'u dathlu. | **Beth allwn ni ei wneud yn well yma yn Ysgol Gymraeg Brynsierfel**<br>Meysydd lle gallai'r ysgol fod yn gweithio'n llawer mwy effeithiol, neu bethau y gallai'r ysgol fod yn eu gwneud yn well. |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth ac arweinyddiaeth** | • Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli weledigaeth glir ar gyfer sicrhau cynnydd a datblygiad dysgwyr mewn awyrgylch gynhwysfawr, ddiogel.<br>• Mae gweledigaeth yr arweinwyr wedi ei gyfansoddi gyda mewnbwn pob rhanddeiliad.<br>• Mae'r ysgol yn frwdfrydig wrth dyfu arweinwyr mewn amryw feusydd ar draws yr ysgol, boed hynny'n arweinwyr ar y MDaPh neu'n uwch arweinwyr rheolaethol.<br>• Mae gan ymarferwyr, ar bob lefel cyfrifoldeb, berthnasau proffesiynol cryf sydd yn galluogi cyfathrebu tryloyw a gonest. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei reoli yn effeithiol a bod barn pawb yn cael ei werthfawrogi. | • Grymuso arweinwyr Meusydd Dysgu a Phrofiad i feddru hunan-arfarnu a gwerthuso darpariaeth, safonau a Dysgu ag Addysgu ar draws yr ysgol.<br>• Sicrhau fod llais rhieni a gwarcheidwaid i'w glywed yng nghynllunio gwelliant yr ysgol e.e. yn y Cynllun Datblygu Ysgol |
| **Cwricwlwm, dysgu ac addysgu** | • Mae'r athrawon yn adnabod y myfyrwyr yn dda ac yn gwneud cynlluniau penodol ar eu cyfer, sy'n gwarantu gwelliant cyson.<br>• Mae athrawon yn y lleiafrif o gyrsiau yn gwneud defnydd rhagorol o'u doniau digidol i dynnu sylw myfyrwyr.<br>• Mae bron pob aelod o'r staff yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau pedagogaidd i warantu bod gwybodaeth a galluoedd myfyrwyr yn datblygu, megis defnyddio addysgeg uniongyrchol i wella hyfedredd iaith ac annog annibyniaeth myfyrwyr trwy addysgeg chwilfrydig.<br>• Mae galluoedd a gwybodaeth mwyafrif myfyrwyr yr ysgol wedi cynyddu'n glir ac yn gadarn.<br>• Mae pob dosbarth yn cynnig lefel gyson uchel o her, gan alluogi mwyafrif y myfyrwyr i berfformio hyd eithaf eu gallu.<br>• Cwricwlwm sy'n bwrpasol ac eang ei gwmpas, sy'n ennyn diddordeb bron pob myfyriwr. | • Datblygu ymhellach chwilfrydedd ag annibyniaeth y dysgwyr<br>• Mae addysgeg a ddefnyddir yn y lleiafrif o ddosbarthiadau yn yr ysgol angen eu datblygu yn bellach.<br>• Nid yw'r amgylchedd mewn nifer fach o ddosbarthiadau wedi eu cynllunio'n ddigon priodol ac nid yw pob aelod o staff yn gwybod beth yw bwriad yr ardaloedd er mwyn herio a chefnogi cynnydd y disgyblion yn ddiogon cadarn. O ganlyniad, mae lefelau ymrwymiad a chwilfrydedd lleiafrif y disgyblion yn isel. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae profiadau dysgu go iawn a dilys yn cael eu creu i warantu bod y dysgu yn ddwfn. | |
| **Lles, tegwch a chynhwysiant:** | • Mae'r ysgol yn sefydliad sy'n ymfalcïo yn ei gallu a'i hangerdd tuag at sicrhau amgylchedd diogel a chynnes i'r holl ddysgwyr.<br>• Mae gan yr ysgol berthnasau cref tu hwnt gyda theuluoedd, yn enwedig teuluoed bregus a theuluoedd dysgwyr ag ADY.<br>• Mae bron pob un o'r disgyblion bob amser yn ymddwyn yn dda.<br>• Mae cysylltiad gwaith cynhyrchiol iawn rhwng y myfyrwyr a'r staff.<br>• Mae'r plant yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac yn barod i gydweithio mewn modd cwrtais a chynhyrchiol.<br>• Gan eu bod yn adnabod y myfyrwyr yn dda, mae'r athrawon yn gallu addasu eu cyfarwyddyd yn llwyddiannus i fodloni bron pob un o ofynion y myfyrwyr.<br>• Mae mewnbwn y myfyrwyr o fudd i weithrediadau'r ysgol, megis cynllunio'r cwricwlwm a dylanwad cynghorau ysgol. Er mwyn bodloni anghenion y myfyrwyr yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn cymryd yr awenau i weithio gyda sefydliadau eraill.<br>• Mae dulliau adferol yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol yn gwrando yn hynod effeithiol ar ei rhieni ac yn ymfalchïo yn ei diwylliant Drws Agored ac yn ymdrechu i feithrin perthnasau iach rhwng dysgwyr, mewn amgylchedd holistaidd. | • Cynnig cyfleoedd pwrpasol, ym mhob dosbarth, i'r dysgwyr i ddatblygu eu chwilfrydedd a'u hannibyniaeth.<br>• Sicrhau bod y dulliau adferol a phrosesau disgyblu yn glir i bob dysgwr, ac i bob ymarferydd. |

# Adran 2 : Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol lefel uchel: 2025-2026

Blaenoriaeth 1 : Cynllunio'r amgylchedd dysgu yn fwriadol yn nosbarthiadau dysgu sylfaen er mwyn gwella annibyniaeth ac ymgysylltiad pob dysgwr.

Blaenoriaeth 2 : Gwella ansawdd ac amrywiaeth y ddarpariaeth awyr agored er mwyn cyfoethogi dysgu a chodi safonau lles a chynnydd medrau ar draws y cwricwlwm.

Blaenoriaeth 3 : Gwella dealltwriaeth y dysgwyr o amrywiaeth o fewn cymdeithas er mwyn eu datblygu fel dinasyddion moesol gwybodun (ACRh a CMG)

Blaenoriaeth 4 : Gwella effaith a chysondeb adborth a phrosesau asesu ar gyfer dysgu er mwyn i bob dysgwr gael dealltwriaeth glir o'u cryfderau a'u camau nesaf yn eu dysgu.

## Section 2.1 Camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni blaenoriaethau CDY a cherrig milltir perthnasol

| • **Blaenoriaeth 1 : Cynllunio’r amgylchedd dysgu yn fwriadol yn nosbarthiadau dysgu sylfaen er mwyn gwella annibyniaeth ac ymgysylltiad pob dysgwr.** | • **Blaenoriaeth 2 : Gwella ansawdd ac amrywiaeth y ddarpariaeth awyr agored er mwyn cyfoethogi dysgu a chodi safonau lles a chynnydd medrau ar draws y cwricwlwm.** |
|---|---|
| Gweledigaeth ac arweinyddiaeth / Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu / Lles, Tegwch a Chynhwysiant | Gweledigaeth ac arweinyddiaeth / Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu / Lles, Tegwch a Chynhwysiant |
| **Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...**<br>▪ Adolygu a threfnu'r amgylchedd dosbarth yn fwriadol i gynnwys ardaloedd dysgu cyfoethog a hyblyg sy’n annog archwilio, datrys problemau ac ymreolaeth.<br>▪ Cynnwys adnoddau hygyrch ac atyniadol sy’n galluogi dysgwyr i ddewis offer a thasgau yn annibynnol, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth dros eu dysgu.<br>▪ Datblygu arwyddion a labeli dwyieithog sy’n cefnogi llythrennedd cynnar ac yn helpu disgyblion i ddefnyddio’r amgylchedd yn effeithiol heb ddibynnu ar oedolion.<br>▪ Trefnu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau wythnosol ar bwrpas a defnydd yr ardaloedd dysgu er mwyn cryfhau eu hymwybyddiaeth o'u nodau dysgu.<br>▪ Defnyddio arsylwadau rheolaidd a gwybodaeth asesu i addasu’r amgylchedd yn barhaus yn unol ag anghenion a diddordebau’r dysgwyr.<br>▪ Cydweithio fel tîm dosbarth a thîm meithrin i rannu arfer da a sicrhau cysondeb o ran cynllunio’r amgylchedd dysgu ar draws y Cyfnod Sylfaen. | **Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...**<br>• Cynnal archwiliad o’r ddarpariaeth awyr agored bresennol er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach.<br>• Buddsoddi mewn adnoddau amrywiol, naturiol ac ysgogol i wella profiadau dysgu traws-gwricwlaidd yn yr awyr agored.<br>• Cynnwys gweithgareddau wedi’u cynllunio’n fwriadol yn yr awyr agored sy’n cefnogi datblygiad corfforol, lles meddyliol, sgiliau cydweithio a datrys problemau.<br>• Integreiddio cyfleoedd dysgu awyr agored yn llawn i gynlluniau tymhorol er mwyn sicrhau cysylltiadau ystyrlon â meysydd dysgu a phrofiad.<br>• Hwyluso datblygiad staff drwy hyfforddiant penodol ar ddysgu awyr agored a sut i ddefnyddio'r amgylchedd fel ‘trydydd athro’.<br>• Cynnwys barn a llais y dysgwyr wrth gynllunio a datblygu’r mannau awyr agored i wella ymdeimlad o berchnogaeth a chynyddu ymgysylltiad. |
| **Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud...**<br>✓ Dysgwyr yn defnyddio’r amgylchedd dosbarth yn hyderus ac yn annibynnol, gan ddewis eu gweithgareddau eu hunain yn bwrpasol.<br>✓ Arferion sefydlog sy’n dangos defnydd ystyrlon ac ailadroddus o ardaloedd dysgu craidd, gyda dysgwyr yn symud rhwng tasgau yn esmwyth.<br>✓ Arwyddion a labeli dwyieithog wedi’u defnyddio’n weithredol gan ddysgwyr i lywio a llythrennuso eu profiadau dysgu.<br>✓ Gweithgareddau hunan-gynlluniedig a chwarae dan arweiniad y dysgwr sy’n arwain at ymgysylltiad dyfnach a datblygiad sgiliau meddwl.<br>✓ Cynnydd mesuradwy mewn annibyniaeth, datrys problemau a sgiliau cydweithio, a nodir drwy arsylwadau ac asesiadau. | **Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud...**<br>✓ Dysgwyr yn ymgysylltu’n frwdfrydig a phwrpasol â gweithgareddau awyr agored sy’n hybu lles, creadigrwydd a datblygiad sgiliau eang.<br>✓ Tystiolaeth o gynnydd mewn sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol drwy weithgareddau awyr agored wedi’u cynllunio’n fwriadol.<br>✓ Amgylcheddau dysgu awyr agored sydd wedi’u trefnu’n gyfoethog, yn ddiogel ac yn annog archwilio, antur a chydweithio.<br>✓ Gweithgareddau dysgu awyr agored sy’n gysylltiedig â meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.<br>✓ Adnoddau naturiol ac amrywiol yn cael eu defnyddio’n effeithiol gan staff a dysgwyr, gan adlewyrchu dull cynaliadwy ac ystyriol o’r amgylchedd. |

<table>
<tr>
<td colspan="3">

- ✓ Staff yn gallu esbonio’n glir y pwrpas y tu ôl i gynllun pob ardal ddysgu a sut mae’n cefnogi datblygiad penodol.
- ✓ Tystiolaeth o waith tîm effeithiol rhwng oedolion o fewn y dosbarth a’r Cyfnod Sylfaen ehangach, gan sicrhau dull cyson a chydlynol.
- ✓ Defnydd o wybodaeth asesu ac arsylwadau i addasu’r amgylchedd yn ddeinamig er mwyn diwallu anghenion sy'n newid.
- ✓ Dysgwyr yn mynegi dealltwriaeth o bwrpas yr ardaloedd dysgu ac yn adlewyrchu ar eu dysgu mewn trafodaethau neu drwy dystiolaeth weledol.
- ✓ Awdurdodau allanol (e.e. ymwelwyr Estyn neu ymarferwyr o ysgolion eraill) yn cydnabod ansawdd y ddarpariaeth ac yn tynnu sylw at ymgysylltiad y dysgwyr.

</td>
<td colspan="3">

- ✓ Staff yn hyderus wrth ddefnyddio’r amgylchedd awyr agored fel rhan annatod o’u harfer addysgu, ac yn gallu esbonio sut mae’n cefnogi datblygiad dysgwyr.
- ✓ Plant yn dangos gwelliant yn eu hyder, menter ac annibyniaeth o ganlyniad i gyfleoedd rheolaidd i ddysgu y tu allan.
- ✓ Llais y dysgwr yn amlwg wrth gynllunio, addasu a gwerthuso’r ddarpariaeth awyr agored.
- ✓ Gweithio mewn partneriaeth â rhieni, y gymuned leol neu asiantaethau allanol i ehangu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored.
- ✓ Gwerthfawrogiad cynyddol ymhlith staff a dysgwyr o’r cysylltiad rhwng dysgu awyr agored a lles, a hynny’n cael ei adlewyrchu mewn asesiadau a thystiolaeth.

</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="3">

- **Blaenoriaeth 3 : Gwella dealltwriaeth y dysgwyr o amrywiaeth o fewn cymdeithas er mwyn eu datblygu fel dinasyddion moesol gwybodus (ACRh a CMG)**

</td>
<td colspan="3">

- **Blaenoriaeth 4 : Gwella effaith a chysondeb adborth a phrosesau asesu ar gyfer dysgu er mwyn i bob dysgwr gael dealltwriaeth glir o'u cryfderau a'u camau nesaf yn eu dysgu.**

</td>
</tr>
<tr>
<td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td>
<td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td>
<td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td>
<td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td>
<td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td>
<td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="3">

**Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...**

- Adolygu’r cwricwlwm a dewis adnoddau addas sy’n adlewyrchu cymdeithas amrywiol, gan gynnwys cymunedau gwahanol, diwylliannau, crefyddau, teuluoedd ac hunaniaethau.
- Cynllunio cyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd sy’n hyrwyddo goddefgarwch, parch a chydraddoldeb drwy themâu perthnasol (e.e. gwrth-fwlio, hawliau dynol, gwrth-hiliant).
- Trefnu profiadau dysgu cyfoethog drwy gyfrwng llyfrau, cerddoriaeth, celf a chyfryngau sy’n rhoi llais a gwelededd i ystod eang o leisiau a safbwyntiau.
- Hwyluso trafodaethau dosbarth rheolaidd gan ddefnyddio dulliau megis cylchoedd trafod neu fforwm ysgol er mwyn annog empathi a dealltwriaeth rhwng dysgwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol (e.e. Stonewall Cymru, Urdd, Mudiad Meithrin, elusennau lleol) i drefnu gweithdai, siaradwyr gwadd neu ddigwyddiadau thematig.
- Monitro agweddau a dealltwriaeth y dysgwyr drwy arsylwadau, llais y plentyn a thystiolaeth waith, er mwyn sicrhau cynnydd a llywio cynllunio ymhellach.

</td>
<td colspan="3">

**Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...**

- Adolygu polisïau ac arferion asesu presennol er mwyn sicrhau cysondeb a chyd-ddealltwriaeth ymhlith staff o’r dull ‘asesu ar gyfer dysgu’.
- Datblygu a gweithredu systemau adborth clir ac ymarferol sy'n cynnwys adborth llafar, ysgrifenedig a/neu weledol, gan ganolbwyntio ar gryfderau a chamau nesaf realistig.
- Cynnal sesiynau hyfforddiant a chynllunio ar y cyd i staff ar asesu effeithiol, gan gynnwys defnyddio iaith sy’n annog myfyrio a thwf.
- Hwyluso cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn hunanasesu a chyd-asesu, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth dros eu dysgu.
- Defnyddio portffolios neu logiau dysgu i ddogfennu cynnydd a thrafodaethau myfyriol rhwng staff a dysgwyr am eu taith ddysgu.
- Adolygu’n rheolaidd effaith adborth ar gynnydd dysgwyr drwy fonitro llyfrau, arsylwadau dosbarth, a llais y dysgwr.

</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…**<br>✓ Dysgwyr yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth, gan ddangos parch tuag at eraill waeth beth fo'u cefndir, credoau neu hunaniaeth.<br>✓ Gwaith y dysgwyr (e.e. ysgrifennu, celf, prosiectau) yn adlewyrchu dealltwriaeth o gymdeithas amrywiol a pharodrwydd i ddysgu am safbwyntiau eraill.<br>✓ Llyfrau, arddangosfeydd a deunyddiau dosbarth yn cynnwys modelau rôl ac adnoddau cynhwysol sy'n cynrychioli ystod o gymunedau ac hunaniaethau.<br>✓ Trafodaethau dosbarth yn dangos bod dysgwyr yn gallu archwilio a myfyrio ar bynciau moesol a chymdeithasol, megis tegwch, anghydraddoldeb a chyfrifoldeb.<br>✓ Cynnwys ACRh a CMG yn amlwg mewn cynlluniau dysgu, gyda chysylltiadau trawsgwricwlaidd yn cael eu nodi a'u gweithredu'n effeithiol.<br>✓ Tystiolaeth o gyfleoedd i ddysgwyr gysylltu ag unigolion neu grwpiau cymunedol drwy brosiectau partneriaeth neu weithgareddau allgyrsiol.<br>✓ Staff yn teimlo'n hyderus ac yn gymwys i arwain trafodaethau sensitif ac yn defnyddio iaith sy'n hyrwyddo cynhwysiant a pharch.<br>✓ Gwelliant mesuradwy yn agweddau ac ymddygiadau'r dysgwyr, fel y nodir trwy arolwg llais y plentyn neu logiau ymddygiad cadarnhaol. | **Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…**<br>✓ Dysgwyr yn gallu trafod eu cryfderau a'u camau nesaf yn hyderus, gan ddangos ymwybyddiaeth o'u taith ddysgu.<br>✓ Ailadrodd a chysondeb mewn dulliau adborth ar draws y dosbarthiadau a'r cyfnodau, gan adlewyrchu arferion a rennir.<br>✓ Tystiolaeth o adborth adeiladol, pwrpasol ac ystyrlon mewn gwaith dysgwyr, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar.<br>✓ Sesiynau hunanasesu a chyd-asesu wedi'u hymgorffori'n naturiol yn y dysgu, gyda dysgwyr yn defnyddio iaith sy'n adlewyrchu'r camau nesaf.<br>✓ Cynnydd gwelladwy yn ymreolaeth dysgwyr wrth osod targedau personol a chyfrifoldeb dros eu cynnydd.<br>✓ Staff yn defnyddio gwybodaeth asesu'n effeithiol i lywio cynllunio ac addasu darpariaeth dysgu yn unol ag anghenion unigol.<br>✓ Tystiolaeth mewn gweithdai llyfrau, trafodaethau dysgwyr ac arsylwadau o effaith uniongyrchol adborth ar gynnydd.<br>✓ Rhannu arfer effeithiol o fewn y staff trwy gyfleoedd i gydweithio, arsylwi a modelu dulliau adborth effeithiol. |

## Adran 3 : Adroddiad ar gynnydd/effaith yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol (2024-2025)

| Priority | Impact<br>Did we meet our targets? What was the impact? If not fully met, explain why. |
|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | • Mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu sgiliau, gan gynnwys digidol, ond mae bylchau'n parhau ym Mlwyddyn Derbyn ac mewn sgiliau penodol fel dewis meddalwedd i ddatrys problemau. |

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod yr amgylchedd a phrofiadau dysgu yn hybu annibyniaeth y disgyblion yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen i ddatblygu'n llwyddiannus. | • Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio SeeSaw yn annibynnol, yn enwedig o Flwyddyn 2 ymlaen, ond mae angen mwy o arweiniad i rai grwpiau ifancach.<br>• Gwelwyd hyfforddiant effeithiol i Gynorthwywyr Addysgu (gan Rose Jones a swyddogion sir), gan arwain at well dealltwriaeth o sut i sefydlu amgylchedd dysgu ymgysylltiol.<br>• Mae'r ddarpariaeth barhaus wedi'i haddasu, gyda chynllunio bellach yn fwy cydlynol ar draws y Camau Cynnydd, ond mae angen mwy o fireinio i gysylltu'n gryfach â'r themâu dysgu.<br>• Mae ardal awyr agored y Derbyn wedi'i gwella'n sylweddol, ond nid yw'r esiampl wedi arwain at newid cyson mewn dosbarthiadau eraill.<br>• Mae disgyblion Meithrin yn dangos annibyniaeth gynyddol, ond mae gormod o weithgareddau dan arweiniad oedolion yn cyfyngu ar archwilio a dewisiadau annibynnol.<br>• Yn y Derbyn, mae diffyg adnoddau a modelu'n dal i rwystro cynnydd mewn annibyniaeth ac ymgysylltiad ystyrlon â'r ddarpariaeth.<br>• Mae Blwyddyn 1 yn dangos cynnydd mewn defnyddio'r amgylchedd dysgu'n annibynnol, ond mae angen rhagor o fodelu a chynnal amgylchedd dysgu trefnus.<br>• Mae mynediad cyfyngedig at brofiadau dysgu awyr agored o ansawdd uchel yn rhwystro cysylltiadau â'r cwricwlwm a lleihau ymgysylltiad.<br>• Mae diffyg cysondeb mewn ansawdd darpariaeth mewn rhai dosbarthiadau yn arwain at anawsterau ymddygiadol ac annibyniaeth gyfyngedig. |
| Blaenoriaeth 2:<br>Datblygu ymhellach sgiliau ysgrifennu estynedig disgyblion ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. | • Mae llyfrau gwaith ar wahân ar gyfer llythrennedd ac ymholi wedi egluro'r broses ysgrifennu estynedig a lleihau colli gwaith.<br>• Mae dull cyson wedi'i gyflwyno ar draws yr ysgol i ddatblygu sgiliau ysgrifennu, gan gynnwys defnyddio WAGOLL a meini prawf llwyddiant.<br>• Mae tasgau ysgrifennu estynedig bellach yn dilyn yn olynol mewn llyfrau llythrennedd Cam Cynnydd 2 a 3, gan wella eglurder ac eglurhad.<br>• Mae dealltwriaeth y disgyblion o'r broses ysgrifennu estynedig wedi cryfhau, ond mae angen ehangu ar yr ystod o genres.<br>• Mae adolygiadau llyfrau tymhorol wedi galluogi staff i olrhain cynnydd a nodi meysydd i'w gwella ar draws y grwpiau blwyddyn. |

| | |
|---|---|
| | • Mae cyflwyno tasgau yn un iaith wedi'u dilyn gan dasg cyfatebol yn yr iaith arall wedi datblygu dealltwriaeth ieithyddol disgyblion.<br>• Mae sgiliau ysgrifennu disgyblion yn dangos gwelliant amlwg dros amser, gyda strwythur gwell, geirfa gyfoethocach ac atalyddion amrywiol.<br>• Mae cynllunio gwell wedi arwain at fwy o gyfleoedd ystyrlon ac estynedig i ysgrifennu, gan gynnwys straeon a barddoniaeth.<br>• Mae'r ysgol wedi datblygu capasiti mewnol cryf i yrru'r flaenoriaeth hon yn annibynnol, heb angen cymorth allanol bellach.<br>• Mae angen datblygu ymhellach sgiliau ysgrifennu creadigol a ffuglen disgyblion ar draws yr ysgol. |
| Blaenoriaeth 3:<br>Mireinio prosesau hunanwerthuso trwy uwchsgilio a thyfu ymarferwyr i chwarae rolau allweddol, drwy amserlen gadarn, i godi safonau. Dyddiad : 4-12-24 Tymor yr Hydref | • Penodwyd uwch-dîm rheoli dros dro profiadol ac mae pennaeth parhaol bellach wedi'i benodi.<br>• Diweddarwyd disgrifiadau swydd i adlewyrchu'r strwythur newydd a chynyddu eglurder o ran cyfrifoldebau.<br>• Mabwysiadwyd calendr hunan-arfarnu newydd a meini prawf llwyddiant wedi'u hail-lunio i ganolbwyntio ar effaith.<br>• Cynhaliwyd teithiau dysgu gan arweinwyr canol, gan wella eu gallu i nodi cryfderau a blaenoriaethu datblygiad.<br>• Cryfhawyd dealltwriaeth staff o'r safonau proffesiynol drwy ddarpariaeth adnoddau a hyfforddiant.<br>• Addaswyd amserlen fonitro i adlewyrchu anghenion yr ysgol a sicrhau ffocws ar feysydd datblygu allweddol.<br>• Mae adborth gan arweinwyr yn fwy tystiolaeth-seiliedig mewn rhai meysydd, ond nid yw hyn yn gyson eto.<br>• Mae cyfrifoldebau arweinwyr wedi'u diffinio'n gliriach, gan wella atebolrwydd a chynllunio ymyriadau targedig.<br>• Mae uwch dîm wedi dangos dealltwriaeth fanwl o gryfderau ac wedi gweithredu'n amserol ar ganfyddiadau monitro.<br>• Gohiriwyd gweithredu pellach tan i sefyllfa staffio sefydlogi, er mwyn galluogi arweinwyr i ymarfer eu rolau'n effeithiol. |
| Blaenoriaeth 4:<br>Cryfhau'r prosesau ar gyfer monitro a gwella presenoldeb disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. | • Presenoldeb ar gyfartaledd ar gyfer 2023–2024 oedd **91.93%**, is na'r targed o 93%, ond mae'r ysgol yn parhau yn y **chwartel uchaf** o gymharu ag ysgolion tebyg.<br>• **Absenoldebau penodol** gan 18 o ddisgyblion, yn cynnwys materion iechyd a chymdeithasol, sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ffigwr cyffredinol.<br>• Mae'r ysgol wedi cymryd **camau personol** gyda theuluoedd unigol, gan gynnwys cefnogaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfodydd rhieni.<br>• **Polisïau presenoldeb** wedi'u rhannu gyda staff; athrawon dosbarth yn monitro'n uniongyrchol ac yn cynnig cefnogaeth gynnar.<br>• Mae **cyfathrebu wedi'i deilwra** gyda rhieni trwy lythyrau, nosweithiau rhieni ac adroddiadau tymhorol, gan sicrhau 100% o deuluoedd yn derbyn gwybodaeth.<br>• Cafwyd cymorth gan **adran llesiant addysg** yr awdurdod a defnydd o systemau ysgol clir ar gyfer ceisiadau gwyliau. |

| | |
|---|---|
| | • **Ymyriadau lles penodol** fel cylchoedd synhwyrau, 'check-ins', a seibiannau wedi cefnogi disgyblion ag ansicrwydd neu bryderon.<br>• **System fonitro gadarn** ar waith, gan gynnwys llythyrau tymhorol a chyfarfodydd â rhieni os bydd presenoldeb yn dirywio.<br>• Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng presenoldeb grwpiau, nac achosion o absenoldeb sydd heb ei dargedu'n briodol.<br>• Er nad yw'r targed o 93% wedi'i gyrraedd eto, mae presenoldeb wedi codi i **92.38%** erbyn Haf 2025 a disgwylir cynnydd pellach yn 2025–2026. |